



WILIA

RHIF 432 CHWEFOR 2021
AM DDIM

PAPUR MISOL CYMRAEG
ABERTAWE

GALW AM SICRHAU DIOGELWCH YN Y DVLA

Mae rhaid cynnal ymchwiliad ar frys i amodau gwaith ac ymarferion diogelwch Covid-19 yn Asiantaeth Trwyddedu Gyrrwr a Cherbydau yn Abertawe - y DVLA - meddai Dr Dai Lloyd, Aelod Senedd Plaid Cymru dros Dde Orllewin Cymru.

Daeth galwad Dai Lloyd mewn Cwestiwn Brys i Brif Weinidog Cymru

Mark Drakeford, a hefyd fe ysgrifennodd i Gyngor Abertawe - y bedwaredd gwaith iddo godi mater diogelwch gweithio yn y DVLA gyda'r awdurdodau cyfrifol ers Mis Mawrth 2020.

Mae dros 500 o bobl sy'n gweithio yn y DVLA wedi dal Coronafeirws, rhywbeth

mae'u hundeb yn ei ddisgrifio yn "sgandal." Dywedodd Dr Lloyd:

"Does dim esgus dros y sefyllfa yn y DVLA. Rwyf wedi ysgrifennu i Gyngor Abertawe fel yr awdurdod

lleol sy'n gyfrifol am sicrhau bod gweithleoedd yn glynwrth y rheolau Covid-19.

"Ysgrifennais lawer gwaith yn uniongyrchol i'r DVLA yn ystod y misoedd diwethaf - am fod lawer o'r gweithwyr yno'n teimlo nad ydyn nhw'n ddiogel yn eu

man gwaith."

Mae hefyd hen bryd i Lywodraeth Cymru chwarae'i rhan a chynnal ymchwiliad ar frys, meddai Dr Lloyd.



"Er bod y DVLA yn adran o Lywodraeth y Deyrnas Gyfun, maen nhw'n gweithredu yng Nghymru ac felly rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau eu bod yn cadw at

reolau'n gwlad ni."

Mae'r rhifau sy'n dioddef o'r Covid yn Abertawe wedi lleihau dipyn yn yr wythnosau diwethaf, er bod y rhifau'n llawer rhy uchel. Yn y ddau fis diwethaf, daeth rhifau Abertawe'n is na rhai Cymru, yn ol canrannau poblogaeth.

Ar adeg cyhoeddi Wilia, roedd y nifer am bob 100,000 o boblogaeth dros saith diwrnod ychydig yn is na 100, ar ôl bod dros 800 ganol Rhagyr.



JANET YN CYCHWYN GYDA'R FENTER IAITH

Mae Menter Iaith Abertawe wedi croesawu dau weithiwr newydd.

Daeth Janet Francis i weithio yn gyswllt â'r cyhoedd, a hi sydd yn

eich croesawu i Dy Tawe ac i'r siop.

Medd Janet, "Bues i'n bennaeth ysgol gynradd, ac wedi ymddeol. Mae gen i lawer o ddi-ddordebau sy'n cynnwys blogio ac ysgrifennu, cyflwyno ar sioe radio leol lle



mae gen i fy rhaglen fy hun **bob prynhawn Mawrth"**

"Rwy'n trefnu blodau, rhedeg clwb llyfrau misol ac rydw i'n gweithio'n weithredol fel actor a chyfarwyddwr yn Little Theatre, Castell-nedd. Fe wnes i ddysgu dramor am 14 mlynedd yn Barcelona, Sbaen, Atlanta, UDA a Johannesburg, De Affrica. Pan ddychwelais adref, bûm yn dysgu mewn ysgol gynradd leol lle deuthum yn ddirprwy bennaeth a

phennaeth. Ysgrifennais a llwyfannais lawer o gynrychiadau ysgol dros y blynyddoedd. Rwy'n siarad Saesneg, Sbaeneg, Cymraeg a Ffrangeg gyda rhywfaint o Eidaleg."

Ers i Janet gychwyn gyda'r Fenter Iaith mae Siop Ty Tawe wedi cael y **Nadolig gorau erioed, ac mae hi'n dal** i weithio yn y siop ar ddyddiau Mercher, Iau a Gwener, yn cynnig gwasanaeth i ysgolion ac i bawb sydd **am brynu llyfrau a nwyddau trwy'r system 'clicio a chasglu' tra bod y siop yn aros i ailagor wedi'r cyfnod clo.**

Cysylltwch â Janet ar y dyddiau hynny, trwy rif ffôn y siop: 456856.

Y MIS NESA:

CROESAWU
TOMOS JONES
YN BRIF SWYDDOG
MENTER IAITH ABERTAWE

Newyddion Cymdeithas Gymraeg Treforys a'r Cylch

GOHIRIO ETO!

Roedd y Gymdeithas yn gobeithio ail ddechrau yn y Gwanwyn a chyhoeddi'r manylion am 2021 yn y rhifyn yma o "Wilia." Mae'n amlwg i bawb erbyn hyn nad yw'r cynlluniau yma yn ymarferol yn wyneb yr anhawsterau yn sgil Cofid 19. Felly, y nod newydd yw ail gychwyn yn nhymor yr Hydref gan gyhoeddi'r manylion ar y cyfle cyntaf. Gobeithiwn drefnu'r daith



Llun: Dilys Price (ar y dde) gyda Mari Evans ar orymdaith ddathlu ennill pleidleisiau i'r merched

Wilia Bach

Yng ngofal Mark Stonelake

Diolch i'n cyfranwyr

Golygydd y mis nesaf: Steve Morris

Anfonwch eich eitemau i'r cyfeiriad e-bost arferol:

wilia@hotmail.co.uk

Deunydd i law erbyn:

dydd Iau, Chwefror 25

CYMRAG



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

COFIO DILYS - A'I DAWN DYNER A DANSHERUS

Dilys Price

Talwyd teyrngedau lu i Dilys Price, mam-gu a blymiai o'r awyr tan yn ddiweddar ac a fu farw yn 88 blwydd oed ym Mis Hydref y llynedd.

Roedd Dilys yn hanu o ardal Aberdâr, a chafodd ei magu yn y Coleg Beibl yn Nerwen Fawr, Sgeti gan fod ei rhieni'n gweithio yno - Dilys Evans oedd hi cyn priodi.

Dywedodd Mari Evans, oedd yn ei hadnabod yn dda pan oedd yn blentyn, fod Dilys yn adnabyddus am ei gwaith elusenol, ei phersonoliaeth fywiog a lliwgar. "Ni wnaeth y ddwy ohonom gyfarfod am flynyddoedd lawer wedyn nes inni ddigwydd gweld ein gilydd ym mis Mehefin 2018 yn yr orymdaith anferth a gynhaliwyd i ddathlu canmlwyddiant ers i ferched ennill yr hawl i bleidleisio. Cerddom yn llawen gyda'n gilydd o Stadiwm Pêl-droed Dinas Caerdydd i Barc Bute gan ddal i fyny â'n hanes dros y degawdau".

Fe gymhwysodd Dilys fel athrawes yng ngholeg symudiad a dawns Laban yn Llundain. Bu'n dysgu yn Abertawe yn ogystal â Choleg Cyncoed Caerdydd, gan ymdyngedu wedyn i helpu pobl ifainc ag anableddau.

Yn ystod ei gyrfa'n athrawes, gofynnwyd iddi gan ysgolion arbenigol i gynorthwyo plant mewn cadeiriau olwyn i gymryd rhan mewn chwaraeon a dawns, ac ymgyrchodd yn galed i ganiatáu pobl ag anableddau gystadlu ar lefel rhyngwladol.

Dyna a'i hysbrydolodd i fynd â'i thechnegau arloesol i ysbysai, ysgolion a chartrefi gofal ledled Cymru a'r tu hwnt - a ffurfio'r Ymddiriedolaeth Cyffwrdd i ddatblygu therapi cyffwrdd i helpu pobl gyda phroblemau megis dementia ac awtistiaeth.

Neidiodd o fwrdd awyren am y tro cyntaf pan oedd yn 54 oed er mwyn codi arian ar gyfer elusen, a dalodd hi deitl y byd Guinness am fod y fenyw hynaf a blymiodd o'r awyr. Fe ddaeth yn wyneb y brand ffasiwn Helmut Lang - a hynny pan oedd yn 86 oed.

Roedd bob amser yn barod i siarad yn gyhoeddus am ei gwaith ac yn ysbrydoli eraill i wneud y mwyaf o'u doniau a'u cyfleoedd mewn bywyd. Mor ddiweddar â Chwefror 2020 daeth Dilys i Amgueddfa Abertawe i annerch Sefydliad Brenhinol De Cymru (RISW) sef Cyfeillion yr Amgueddfa.

Dynes fach gyda chalon a phersonoliath mawr oedd Dilys Price ac mae'r golled yn enfawr i'w theulu a'i lluo o gydweithwyr a ffrindiau.

Yn ystod ei hangladd yng Nghaerdydd, darllenwyd englyn deyrnged gan y Prifardd Dr Mererid Hopwood:

Rhwng y tyner a'r dansherus, - rywfodd
rhydd i'r cryf a'r bregus
'run cyfle, 'run lle'n ei llys:
un di-ail yw ein Dilys.

HER YR URDD

Annwyl ddarllenwyr,

Fel rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol, mae Urdd Gobaith Cymru wedi – ac yn parhau – i wynebu'r cyfnod mwyaf heriol yn ei hanes o ganlyniad i bandemig Covid-19.

Rydym wedi gorfod colli hanner ein gweithlu (dros 160 staff) ac yn rhagweld colled incwm o oddeutu £14M dros y ddwy flynedd nesaf. Oni bai am gefnogaeth sylweddol gan Lywodraeth Cymru bydden ni wedi bod mewn sefyllfa llawer mwy **trychinebus, a'r gefnogaeth ariannol** ychwanegol wedi ein galluogi, yn syml, i **gadw ein pennau uwchben y dŵr a sicrhau**



y bydd Urdd yn gallu goroesi. Mae hi wedi bod yn gyfnod o bryder mawr, **ac mae gwaith caled iawn o'n blaenau o hyd.** Ond, rwyf yn hynod falch ein bod fel mudiad wedi gallu arall-**gyfeirio rhai o'n** gwasanaethau er mwyn cadw cysylltiad **gyda'n haelodau.**

Mae ein gwersylloedd wedi agor eu drysau i gynig cefnogaeth i blant a phobl ifanc bregus, rydym wedi sefydlu cyfleodd ddigidol yn ein meysydd Ieuenctid, **Chwaraeon a'r Celfyddydau, yn parhau i** redeg ein gwasanaeth Prentisiaethau, wedi llwyddo i hyrwyddo Neges Heddwch ac Ewyllys i gynulleidfada o dros 37 miliwn, wedi cynnal Eisteddfod T Llwyddiannus ac wedi creu a chynnal digwyddiadau rhyngwladol rhwng aelodau'r Urdd a phobl ifanc **Alabama a'r Iwerddon.**

Braint oedd cael hefyd cydweithio gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru wrth lansio ein hymgyrch codi arian, 'Het i Helpu', cyn

y Nadolig. Mae'r gefnogaeth a ddangoswyd i'r Urdd yn ein cymunedau ar draws Cymru (a thu hwnt!) wedi codi ein calon ni fel mudiad, a fedraf i ddim diolch ddigon i **bawb sydd wedi'n cefnogi.**

Mae'r Urdd wedi meithrin cenedlaethau o blant a phobl ifanc i fod yn falch o'u gwlad, yn agored i'r byd ac yn ymgorfforiad o'n **hiaith a'n diwylliant ac ar drothwy ein** **canmlyddiant rydym yn edrych i'r dyfodol** **gydag agwedd positif ac hyderus. Mi ddaw'r** **Urdd drwy'r cyfnod yma, yn gryfach ac yn** **barod i weithredu er budd plant a phobl** **ifanc Cymru unwaith yn rhagor.**

Diolch o waelod calon i chi am yr holl gefnogaeth.

Cofion gorau,
Siân Lewis Prif Weithredwr

Os hoffech wneud cyfraniad tuag at yr Urdd **gallwch wneud hynny drwy ymweld â'n** **gwefan (urdd.cymru/cyfrannu), neu drwy** **anfon siec yn daladwy i Urdd Gobaith** **Cymru at:**

Adran Ariannol Urdd Gobaith Cymru
Gwersyll yr Urdd Glan-Ilyn
Llanuwchllyn
Y Bala Gwynedd LL23 7ST



Amser Mynd – llyfr taith Dyfan Lewis

Dyma gasgliad o ysgrifau am deithio o amgylch de-ddwyrain Asia. **A ninnau'n gaeth i'n cartrefi, mae'n ddelfrydol er** **mwyn dianc heb orfod gadael ein cadair** **freichiau. Mae gan Dyfan ddawn i gyfleu** **naws y gwledydd y mae'n teithio ynddyn** **nhw ac i fyfyrto ar ei brofiad fel ymwelydd** **gwyn. Chewch chi ddim o'ch siomi. Mae** **modd archebu'r llyfr o wefan** **gwasgpeilydr.com. gyda llyfr llais ar gael** **hefyd i'r rhai sy'n mwynhau gwrando yn** **fwy na darllen.**

Mae Dyfan yn dod o Graig Cefn Parc yn **wreiddiol ac fe'i haddysgwyd yn Ysgol** **Felindre ac Ysgol Gyfun Bryn Tawe.** **Enillodd gystadleuaeth yr ysgrif yn** **Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd** **2018. Amser Mynd, Gwasg Pelydr, £10. el** **llyfr a llyfr llais, £15.**



Cwlwm yn galw am frechlyn **Coronafeirws i staff gofal plant a** **gwaith chwarae.**

Heddiw, mae Cwlwm – **y grŵp sy'n dwyn ynghyd y** **5 sefydliad gofal plant a chwarae blaenllaw yng** **Nghymru – yn galw am roi blaenoriaeth i holl** **ymarferwyr gofal plant a gwaith chwarae yng** **Nghymru ar gyfer y brechlyn Coronafeirws ar yr un** **pryd ag athrawon a staff addysg.**

Mae cysylltiad agos rhwng ysgolion a gofal plant ac, drwy gydol y pandemig, maent wedi darparu darpariaeth ddiogel i blant ledled Cymru. Ac er bod **cyfraddau trosglwyddo ymysg plant hŷn yn uwch,** mae ymbellhau cymdeithasol mewn gofal plant yn llawer mwy cymhleth felly dylid darparu'r un amddiffyniad i ymarferwyr gofal plant a chwarae â chydweithwyr addysg yn yr amserlen frechu.

Dr Gwenllian Lansdown Davies, Prif Weithredwr Mudiad Meithrin
Jane O'Toole, Prif Weithredwr Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs
David Goodger, Prif Weithredwr Blynyddoedd Cynnar Cymru/Early Years Wales
Claire Protheroe, Prif Swyddog Pacey Cymru
Sarah Coates, Prif Swyddog NDNA Cymru

Mae Cwlwm yn tynnu ynghyd y pum prif sefydliad gofal plant yng Nghymru i ddarparu gwasanaeth dwyieithog integredig sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant a theuluoedd ar draws Cymru yn unol â dull 'system-gyfan' Llywodraeth Cymru.

Mae Cwlwm - prosiect a arweinir gan **Mudiad Meithrin mewn partneriaeth â** **Clybiau Plant Cymru, NDNA Cymru,** **PACEY Cymru a Blynyddoedd Cynnar** **Cymru - yn tynnu ynghyd y gallu, ar sail** **cyfoeth o brofiad, i fynd i'r afael â** **materion yn y sector Gofal Plant a** **Chwarae.**

COFIO ELDRYDD

Braint Wilia yw cyhoeddi anerchiad y Parch Owain Llyr Evans, Minny St., Caerdydd, yn angladd Eldrydd

Ann Eldrydd Williams

Mathew 2:1-12
Caspar, Melchior a Balthasar.
Aur, thus a myrr.
Aur i'r brenin.
Thus i Dduw mewn cnawd.
Myrr i'r dioddefydd.

Hoffwn awgrymu heddiw fod Eldrydd fel aur. Roedd ei chymeriad yn brydferth fel aur. Perthynai i'w phersonoliaeth naws hyfryd, ddengar, onest, agored ac ar brydiau, pan fu angen, siarad plaen a mynegi barn yn eglur a phendant a charedig. Fel aur, roedd Eldrydd bob amser yn ddeniadol; tlws a thrwsiadus ydoedd, heb na blewyn na bwcl na botwm allan o'i le, ond roedd hon hefyd yn wraig brydferth ei gwerthoedd, prydferth hyd at aberth ydoedd: gofal dŵfn y galon oedd gofal dihafal hon. Un drwsiadus ydoedd, bob amser ond roedd ei ffydd hi'n gymen hefyd, ei gobaith a sglein iddo, a'i chariad yn hardd: aur.

Roedd ei chyfraniad yn amhrisiadwy, fel aur. Cafodd Bethesda, Kings Cross, Ebeneser, Bethel a Minny Street o'i gorau; bu'n ddyfal a dygn ei gwasanaeth i Gymru a'r Gymraeg, i'r Urdd, yn lleol a chenedlaethol, i eisteddfodau ac eisteddfota. Bu'n ysgrifennydd Cylch yr Urdd am dros 25 mlynedd, ac yn sgil hynny yn un o Lywyddion

Anrhydeddus Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2009.

Ni fedrai Eldrydd wrthod cymwynas; roedd yn dawel-hyderus a naturiol bob amser, boed mewn pwyllgor neu ar lwyfan, er gwaetha ansicrwydd a fu'n gymaint o boendod iddi. Roedd ganddi gyflenwad di-ball o hiwmor, gras a chydymdeimlad. Llwyddodd Eldrydd ar daith bywyd i ddal ei gafael ar obaith er nad oedd hynny'n beth hawdd iddi; gwnaeth



hynny nid trwy anwybyddu'r anawsterau a diystyru tristwch, ond trwy lynu'n dynn dynn wrth ffydd a chred yn Nuw, ac yn yr hyn o Dduw a oedd ynddi ac yn pefrio ohoni. Roedd

hon fel aur; bu fel aur i chi fel teulu, bu fel aur i'r cylch o gynabod a fu'n troi ar echel ei gwaith a'i gwasanaeth. Rhodd ydoedd gan Dduw i bawb a fu'n ddigon ffodus o'i hadnabod. Bu fel aur i ni yn Eglwys Minny Street dros y tair blynedd aeth heibio, yn ffrind da i bawb ac i minnau fel Gweinidog. Da yw cael datgan hynny heddiw.

Gellid dweud mae cynrychioli pethau cyfredin bywyd mae Thus: pethau bach y beunydd beunos.

Nid Cristion gwên denau mo Eldrydd. Mae

rhai sydd a'u crefydd mewn dweud, er bod peth lles yn hynny, gwell o lawer yw crefydd mewn dwylo mewn gwneud, cymeriad felly oedd Eldrydd: ymarferol, gweithgar, cymwynasgar - gwelwyd ei chyffes mewn cymwynas, a'i chredo mewn caredigrwydd, a tholc mawr sydd ar ei hól mewn sawl cylch.

Chwip o athrawes dda ydoedd. O Bancosfelen i Whithart Lane, o Adamsdown i Fryniago, o Bontybrenin i Fryn y Môr bu hon yn rhoi llaw a chalon i'r rhai lleiaf ac mae trwch o bobl a fu iddi'n ddisgyblion yn ddyledus iddi am iddi fynnu gweld ac amlygu eu gwerth fel unigolion – a hynny'n ei galluogi i weld y potensial oedd ynddynt fel pobl a dinasyddion.

Fel mam a gofod i dyfu a datblygu, cyfle i fethu a llwyddo, i gerdded a chlofffi. O'r herwydd, mam ddi-nam oedd hon. Gan dy gadw'n agos, wrth dy ollwng yn rhydd, bu Eldrydd yn batrwm o fam i ti Abigail. Fe wyddai i'r blewyn sut i fod i ti'n ffrind ac yn fam. Fred, bu Eldrydd ym mhob peth yn gefn i chi, a chithau ym mhob peth yn gefn i hithau. Priodas swynol, gydgorus, gyfoethog fu hon. Cari Grug, cest di'r fam-gu orau yn y byd i gyd, ond dw i'n credu bo' ti'n gwbod hynny eisoes, a **bydda i'n** darllen cerdd gennynt cyn bo' hir.

Myrr. Mae Myrr yn cynrychioli poen, colled a dioddefaint. Cafodd Eldrydd gystudd trwm, ond nid y cystudd a ddylasai ddiffinio Eldrydd, ond y modd y bu iddi ei wynebu. Daw dewrder yn hawdd i rai. Maen nhw'n ddewr o natur, nid un felly ydoedd Eldrydd. Un gofidus ydoedd o ran natur, ei chwpan oedd hanner llawn o ran greddf; gan fod hyn yn wir, bu hi'n syfrdanol o ddewr wrth wynbeu ei salwch a'i diwedd. Wrth gael ei chynnal, bu'n gynhaliath; wrth dderbyn gofal bu'n gofalu, wrth dderbyn triniaeth, bu'n asprin i'n hysbryd. Mae rhai eneidiau - prin ydynt - eneidiau sydd i eraill yn stôr o fendith, cysur a chymorth i fyw. Un felly oedd Eldrydd. Eneidiau prin yw'r rhain - bu un ohonynt i chi'n wraig a mam a mam-gu.

Awn ymlaen o heddiw, o herwydd heddiw, gyda'n ffydd yn Nuw wedi ei hadnewyddu, a'r angen i ymddiried yn ein gilydd, a phwyso ar ein gilydd wedi ei gadarnhau. Gan gofio un a ymdrechodd ymdrech deg, ymdrechwn. Gan gofio un a orffennodd yr yrfa, parhawn ar ein taith. Gan gofio un a gadwodd y ffydd, ymrown i gadw a chael ein cadw gan ein ffydd, y ffydd sydd heddiw, fel bob amser yn gysur ac yn gymorth i fyw.

Mamgu (Aralleiriad Cari Grug o gerdd Ruth Pritchard, "Syr")

Pan dyfai fi yn fawr cyn hir
Mi hoffwn fod fel Mamgu yn wir.
Mae'n glyfar! Mi wŷr hi o hyd
Yr holl gynhwysion i'r cacennau i gyd.
Mae Mamgu yn gampus o ddydd i ddydd.
Mae Mamgu yn hoffi canu bob eiliad o'r dydd.
Mae'n gwybod pwy sy'n ddrwg bob tro.
Ac os oes creisis mawr, mae hi
Yn gwybod wastad beth i wneud
Yn gwybod wastad beth i ddweud.
Mae Mamgu yn gwisgo cot ffwr bob dydd,
A bagiau lliwgar o hyd, a bydd
Yn gwneud yn siŵr i chi
Mae hi yw Mamgu gorau'r byd.
Pan dyfai fi yn fawr, wir i chi,
Fe hoffwn i fod fel Mamgu.

Cylch Trafod Llyfrau Tŷ Tawe

Barn Cylch Trafod Llyfrau Tŷ Tawe

Perl gan Bet Jones

Marciau: yn amrywio o 8 i 10

"Wedi mwynhau; sawl stori ddi-ddorol mewn un nofel."

"Cymeriadau credadwy."

"Dysgais lawer am y rhyfel yn yr hen Iwgoslafia yn y 1990au."

"Heb allu gorffen; llawer o ystrydebau yma o ran dyfeisiadau plot."

"Braf darllen am wlad wahanol. Roedd y map yn syniad da."

"Wedi fy niddanu o'r dechrau i'r diwedd, er bod tristwch a phroblemau yma."

"Gan fy mod i wedi cael gwyliau yn Croatia, roedd llawer o bethau cyfarwydd imi yma."

"Mae'n amlwg i'r awdur wneud llawer o ymchwil, ond bod y digwyddiadau go iawn yn llawer gwaeth na'r disgrifiadau yn y stori."

"Efallai i'r stori ymrannu'n ormodol rhwng trafod sawl peth – ambell gyfle wedi'i golli o ran datblygu'r hanes, e.e. hanes y cymeriad Petrak."

"Weithiau roedd gormod o fformiwlâ ynghlwm wrth y stori ond ar y cyfan, cefais fwynhad mawr."

"Ro'n i'n teimlo bod penderfyniadau bach bywyd yn gallu dylanwadu ar bopeth, yn newid pob dim, yn enwedig mewn brwydr."

"Er bod rhai pethau'n teimlo eu bod nhw'n ystrydebol, mae bywyd yn gallu bod fel yna. Ro'n i'n cydymdeimlo â'r sefyllfa yn fawr."

"Ro'n i wir wedi mwynhau, er nad ydw i'n ddarllenwraig fawr fel arfer."

Roedd y sôn am genedlaetholdeb Croatia a Chymru yn apelio."

Y Dial gan Jon Gower

Marciau: yn amrywio o 4 i 8

"Ychydig bach yn rhy dreisgar i mi. Efallai fod angen rhybudd am rai o'r golygfeydd."

"Do'n i ddim awyddus i ddarllen ond wedi cael siom o'r ochr orau. Mae'r

stori'n symud mor glou, ces i fy nghario gan y llyfr. Llawer o bethau difyr ac anhygoel. Mae'r awdur yn dipyn o storiwr!"

"Heb fwynhau – sori!"

"Gormod o drais i greu argraff weithiau. Wedi mwynhau'r doniolwch serch hynny."

"Braf cael rhywbeth sydd wedi'i leoli yng Nghaerdydd."

"Dros ben llestri o ffantasiol ac yn rhy hir mewn gwirionedd."

"Wedi mwynhau hyd at y 30-40 tudalen olaf – ambell beth anghredadwy wedyn o ran perthynas rhai o'r cymeriadau â'i gilydd."

"Llu o idiomau Saesneg wedi'u cyfieithu."

"Cefais fwy o flas nag roeddwn wedi meddwl."

"Dechreuais ddod i delerau â'r trais ar ôl ychydig. Mwynheais, ond ro'n i'n meddwl bod yr awdur wedi bod yn wastrafflyd – mae sawl stori mewn un llyfr mewn gwirionedd. Gormod o bethau'n digwydd yn sydyn."

"Llawer o gymeriadau garw ond hoffus; mae gan yr awdur ddychymyg enfawr a'r gallu i ddarbwyllio'r darlennydd ei fod wedi cael profiad o sefyllfaoedd cwbl anhygoel."

Byddwn yn cael cyfarfod ar ap cyfarfodydd Zoom am 7:30 ar ail nos Lun y mis dros y misoedd nesaf. Cysylltwch ag

elin.angharad.meek@gmail.com os ydych chi eisiau ymuno â ni.

Llyfrau'r misoedd nesaf fydd:

8 Chwefror *Ochr Treforys o'r Dre* – Neil Rosser, Gwasg Carreg Gwalch

8 Mawrth #Helynt – Rebecca Roberts, Gwasg Carreg Gwalch

12 Ebrill *Filó* – Siân

Melangel Dafydd, Gomer,

£8.99

Llyfr Neil Rosser gaiff ei drafod yn noson Clwb Darllen Ty Tawe ym mis Chwefror



Ysgol Bryn Tawe

Newyddion diweddar Adran y Gymraeg

Roedd y chweched sy'n astudio Cymraeg Safon Uwch wrth eu boddau yn ddiweddar yn cael cwmni Caryl Lewis ar zoom mewn gwers Gymraeg. Cawsom wledd yn clywed amdani yn son am ei gyrfa a thrafod y nofel 'Martha, Jac a Sianco'. Diolch yn fawr hefyd i Aneirin Karadog am ymuno yn rhithiol mewn gwers Gymraeg i fl.11 yn ddiweddar yn trafod ei gerdd 'Gweld y Gorwel' a sôn am fanteision astudio Cymraeg Safon Uwch.

Cynhaliwyd cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus y Rotari eleni yn rhithiol. Y tri a baratodd fideo ar gyfer y gystadleuaeth eleni oedd Jack Thomas o fl.12, Morgan Davies o fl.11 a Sion Thomas o fl.11. Teitl eu dadl oedd "Gwastraff arian yw Prifysgol yn 2020".

Cymerodd Mirain Owen o fl.11 ran yng Ngŵyl Gerallt eleni a chyfrannu at banel o bobl ifanc yn trafod llenyddiaeth Gymraeg. Ysgrifennodd Mirain hefyd y gerdd hon yn ddiweddar fel cofnod o'r Cyfnod Clo.

Gobeithio y cewch gyfle i fwynhau ein gwasanaeth Nadolig rhithiol eleni, yn cynnwys darlenniadau Beiblaidd gan y Chweched, cerddi ysgafn wedi'u perfformio gan fl.7, a gwirfoddolwyr o fl.8 i 11 yn darllen cerddi. Dyma'r linc i chi wyllo

<https://youtu.be/loHCiPzr0ow>

Y Gofid Mawr

Deffro yn y bore a mwynhau'r dydd yn llwyr
Gorwedd yn y gwely o fore gwyn tan hwyr,
Gwrando ar gerddoriaeth a raprys cŵl a'u cri...
Daeth y Cyfnod Clo a rhyddid braf i mi.

Doedd dim arholiadau na bywd o'r ffreutur chwaith
Aros o flaen Netfflics heb orfod gwneud dim gwaith,
Dim angen caniatad na chodi llaw i pi...
Daeth y Gofid Mawr a byd heb loes i mi.

Codi ganol pnawn i fwyta brecwast mawr
Wy a bacwn blasus dim ots beth oedd yr awr,
Mynd at lan y môr i syrffio ar y lli...
Daeth yr holl ynysu a bywyd llawn i mi.

Protest Black Lives Matter yn dod a'r pwnc yn nes,
Pobl ifanc Cymru yn agosau at Yes,
Neb yn gwisgo welis i Steddfod fwd a bri...
Daeth yr locdawn cyntaf a'r byd i'n lloffa ni.

Zoomio i Ddolgellau heb orfod adael tŷ,
Siarad bob un diwrnod am straeon hurt datcu,
Mynd am dro hyd afon, mellithio baw pob ci...
Daeth y cyfyngiadau a'r fro i'm golwg i.

Mynd i'r banc mewn mwgwd a neb yn holi pam
Neb yn gweiddi 'stick 'em up' nac edrych arnai'n gam,
Golchi llaw bob munud, sdim germau arna i...
Daeth y cyfnod budr a glendid llwyr i ni!

Neb yn mynd ar wyliau a neb yn mynd i'r cwrdd,
Neb yn gwyllo'r Elyrch a pawb yn tŷ rownd bwrdd,
Ac wedi'r cyfnod hyfryd o fisoedd braf di-ri...
Ysu am yr ysgol oedd fy hanes i!

Teyrnged i Gareth Rees

Rygbî cymunedol oedd dilêit Gareth. Ac yntau'n dod o Fargoed ac yn byw yn Nghlydach ymunodd â chlwb rygbî'r Fardre yn y pentref, gan deithio gyda'r tîm i wahanol dwrnameintiau. Ar un achlysur bu'n gwylïo'r gemau gyda'r cefnogwyr yn Llanbedr Pont Steffan. Yno, clywodd y Gymraeg yn naturiol rywiog ar wefusau'r dorf a'r chwaraewyr ar y maes a daeth y sylweddoliad iddo fod hynny'n 'iawn' ac mai fel hyn y dylai pethau fod. Bu'r eiliad honno, ei foment o 'epiffani' fel yr oedd yn ei alw, yn drobwynt iddo. Penderfynodd ailgydio yn yr iaith a glywodd gan ei famgu ddegawdau ynghynt yng Nghastell Newydd Emlyn a datblygodd y Gymraeg a'i phethe yn ganolog i'w fywyd.

Er bod ganddo ddoethuriaeth a graddau gwyddonol, wedi blynyddoedd o waith ym myd cemeg a chynhyrchu, penderfynodd mai ieithydd y dymunai fod a dysgodd Ffrangeg at safon gradd ac yna gwnaeth radd uwch mewn technoleg cyfieithu. Bu'n gweithio fel cyfieithydd Ffrangeg am ddau ddegawd cyn ymddeol a symud i Barcelona cwta ddwy flynedd yn ôl. Yno, yn Barcelona, mae Geraint, ei fab, a'i wraig, Dina, a Matilda, wyres Gareth a Jane. Gwirionodd Gareth ar "Mati fach" ac ymfalchiai yn llwyddiant Geraint sydd yn gweithio yn y brifysgol. Dysgodd Sbaeneg ac roedd yn dysgu Catalaneg pan darodd y strôc yn greulon yng ngwanwyn 2019.

Cymreictod traddodiadol oedd ganddo. Yn hyddysg yn niwylliant

gwerin, barddoniaeth a llenyddiaeth y Cymry, roedd yn hoff iawn o gerddoriaeth draddodiadol. Canai sawl offeryn yn ei gartref, ond gwranddo yn



unig a wnai yn y sesiynau gwerin amrywiol yn nhafarndai Cymru, ar wahân i rannu ambell i gân achlysurol. Teithiai ar hyd ac ar led i gael mwynhau cwmni'r gerddoriaeth a'r cerddorion a bu'n arwain teithiau answyddogol o dafarndai o Benfro i Swydd Henffordd a'r Cambria Irredenta yr hyfrydai ynddo. Roedd hwyliâu direidus yn ei gwmi bob amser a gwerthfawrogi gwrw dal! Wedi iddo symud i gyffiniau Treforys daeth y Llew Coch yn gyrchfan gyson a datblygodd cornel fach Gymraeg ei hiaith yno ar Sadyrnau.

Yn ryngwladolaidd ei weledigaeth a'i olwg Ewropeaidd, roedd parhâd Cymru fel rhan o Ewrop yn hollbwysig iddo. Credai fod gan Gymru rhywbeth amgen i'w gynnig i'r byd ac o'r herwydd taflood ei hun i weithio yn wirfoddol dros ein gwlad. Bu'n ymgyrchu o ddrws i ddrws dros addysg Gymraeg; bu'n lywodraethwr ar ysgol Gymraeg Tan y Lan yn Nhreforys; bu'n brotestiwr a dathlwr cyson dros yr iaith a Chymru annibynnol; bu'n

rhoi gwersi Cymraeg yn wirfoddol yng nglwb y Wyrdis yn Nhreforys am flynyddoedd; bu'n Sion Corn dwyieithog i blant yr ardal; a Gareth, yn fwy na neb, oedd wrth gefn adnewyddu'r bar yn Nhŷ Tawe a bu'n rhedeg y bar yn wirfoddol am flynyddoedd ar gyfer nosweithiau'r sesiwn werin a nosweithiau acwstig Tyrfe Tawe. Trefnodd sawl gwyl gwrw yno a mwynhau gweini ar rai o'i arwyr, fel Meic Stevens a Lowri Evans. Ei wên ef fyddai'n codi calon pwy bynnag gyrhaeddai.

Cerddai ar y Sul gyda chlwb cerdded Pontarddulais ac yn aml byddai'r teithiau hynny'n diweddu yng nghyffiniau tafarn y Railway yng Nghilâ. Roedd wrth ei fodd gyda'r ffaith fod afalau ei berllan, Dol Erwain, yn gynhwysyn i'r seidr naturiol Gymreig a gai'r yfwyr yno.

Bu Jane a Gareth yn gariadon ers dyddiau ysgol a buont yn bartneriaeth berffaith am hanner can mlynedd namyn ychydig fisoedd. Bu Jane yn graig wrth gefn Gareth drwy ei salwch dros y misoedd diwethaf a rhannwn ein cydymdeimladau dwysaf gyda hi a Geraint a'r teulu yn eu colled. Fydd Tŷ Tawe, Abertawe, na Chymru fyth yr un fath.

Gareth Rees (1955 - 2020)

Ym monllefau seiniau ein sesiyna...
Ar aelwyd bar clyd y Railway, Cilâ...
Yn hud alawon a'n chwedleua – cu...
Yn ein canu a dathlu cwrw da...

Ar d'antur i Cambria Irredenta
A natur ein holl bererindota...
Yn heddwch ein mynydda – yn dirion
Yn awelon Dol Erwain a'r 'fala'...

Ym Mati fach lon ym Marcelona...
Yng ngwerin rydd lonydd Catalwnia...
Yn rhyddhau hualau Gwalia'n – ddi-egwyl...
Yn annwyl yn hwyl ein gwrthryfela...

Yn chwaethus anweddu drwy'n llenyddda...
Yn ein llafur, chwarae a'n segura...
Ei sbri a'i ddireidi rodia'n – hoenus,
Erys ei wên hoffus. Braf yw'r coffa.

Huw Dylan Owen

Llun: Chris (Eos) Reynolds



Mae'n anodd cofio sut oedd hi cyn dyfodiad Covid, yr amser yna pan oedd dydd Sadwrn yn ddiwrnod Cymdeithas Edward Llwyd. Cael mynd i rywle gwahanol bob wythnos a dysgu hanes yr ardal, edmygu a dysgu enwau planhigion, anifeiliaid ac adar, hyn i gyd efo ffrindiau a thrwy gyfrwng y Gymraeg. Dw i'n ysu am y dyddiau yna. Mi ddaw'r dyddiau eto wrth gwrs ac yn raddol mi fydden ni'n anghofio'r anghydfod presennol, wir i chi mi ddaw!

Sut ydych yn treulio'ch amser bellach? Mae digon i'w wneud dw i'n siŵr ond efallai, pan dach chi eisiau hoe fach dawel ydych chi'n sylly ar eich silff llyfrau yn llawn gobaith i ddod ar draws llyfr dach chi heb ei ddarllen eto? Ond does dim un, yn y misoedd diwethaf dach chi wedi cael digon o amser i ddarllen pob un wan jac. Beth i'w wneud? Wel gan fod chi'n gofyn! A gaf i awgrymu llyfr a fydd yn mynd â chi allan i'r awyr las unwaith eto. Ychydig o ddyddiau'n ôl ces i becyn yn y post, pecyn oedd yn cynnwys llyfr Anne Gwynne - 'Fan Hyn a Fan 'Co'. Erbyn hyn allaf i lenwi pob munud sbâr ac, ar yr un pryd symud yn ôl mewn amser i'r dyddiau dw i'n gweld eu colli. Roedd Anne yn cyfrannu adroddiadau o'r teithiau i'r Ddolen a'r Barcud, papurau bro ardal Tregaron lle mae hi'n byw. Mae 39 o adroddiadau yn gyfan gwbl, yn cynrychioli 13 o flynyddoedd ac maen nhw'n bleser pur i ddarllen. Yn anffodus dim ond ers mis Hydref 2017 dw i wedi bod yn aelod felly dw i ddim ond wedi bod ar un o'r teithiau. Peidiwch â chamddeall, dw i'n mwynhau



pob adroddiad ond dw i'n tueddu cicio fy hun nad oeddwn wedi ymuno yn gynt. Mae cleisiau yn dechrau ffurfio!

Mae llawer o bethau'n dod drwodd wrth ddarllen - y trysor o wybodaeth sydd ym mhennau'r arweinyddion a'u parodrwydd i rannu hynny efo'r aelodau; y pleser sydd i gael wrth fod allan yn yr awyr iach, hyd yn oed pan mae hi'n glawio neu yn niwlog; y cyfeillgarwch sydd i fwynhau a chael diwrnod o siarad Cymraeg. Hyn oll wedi cael ei ysgrifennu mewn Cymraeg graenus a chliir. Dyma lyfr allech chi fwynhau'n gyfforddus yn eich cadair freichiau.

Talent Arbennig

gan Rob Evans

Mi ydan ni i gyd wedi edrych yn ôl ar y flywyddyn ddiwethaf, blwyddyn erchyll 2020 a'r firws yma sydd wedi ymledi dros y byd i gyd mewn amser mor fyr. Dim ond am dair wythnos oedd y cyfnod clo cyntaf i fod ond dyma ni yn 2021 ac mae'r firws yn dal efo ni a llawer wedi colli anwylyd. Mae ein bywydau ni wedi bod fel ffuglen ddi-chwaeth. Yn raddol mae rhywun yn colli gafael ar normalrwydd.

Ond mae bywyd yn mynd yn ei flaen ac mi ydw i'n siŵr nid fi oedd yr unig un i ryfeddu ar y cyferbyniad rhwng ein byd ni a byd natur. I ran fwyaf ohonom roedd ein byd ar stop tra oedd byd natur yn symud ymlaen fel doedd dim byd yn bod, yn wir roedd byd natur yn ffynnu wrth gael heddwch oddi wrthon ni. Mi wnaeth y gwanwyn codi llawer o galonau efo'r dyddiau yn ymestyn ac yn cynhesu. Welais golled o grwydro llwybr arfordir sir Benfro, seiclo o gwmpas llynnoedd Cwm Elan a theithiau wythnosol Cymdeithas Edward Llwyd. Gobeithio y bydden ni'n rhydd i gael mwynhad llawn o wanwyn 2021.

I ddechrau, doedd dim llawer o newid i'n rhaglenni teledu gan fod digon wedi cael eu cynhyrchu i gadw ni i fynd am ychydig o fisoedd. Ond roedd llawer o grafu pennau i ddarganfod ffyrdd o gynhyrchu rhaglenni mewn ffordd oedd yn cadw at y rheolau. Yn y cyfamser cawsom wledd o ailddarllediadau. Doth Dudley yn ôl hyd yn oed ac wrth gwrs yr anfarwol Cym on Midffild - dw'n i ddim amdanoch chi ond dw i wedi gweld nhw llawer gwaith ond maen nhw wastad yn bleser. Mi wnaeth Pobl y Cwm greu cyfres o raglenni am brif gymeriadau'r opera sebon pan oedd eu rhifynnau nhw wedi dod i ben. Roedd Rownd a Rownd yn lwcus iawn mewn ffordd achos bod nhw'n cael seibiant yn

ystod yr haf beth bynnag. Mi wnaeth hynny roi cyfle iddyn nhw drefnu ffordd newydd o ffilmio. A tydi'r opera sebon yna mewn lle cyffrous ar hyn o bryd! Roedd Elin Fflur yn cael crwydro gerddi rhai o sêr Cymru er mwyn cael Sgwrs dan y Lloer. Ac wrth gwrs, uchafbwynt i rai ohonoch chi oedd gweld sut oedd Hogia'r Wyddfa wedi herwgipio Anthony Hopkins!

Ond un peth sydd wedi sefyll allan wrth edrych yn ôl yw talentau cerddorol ein pobl ifanc. Gwelsom ddrاما Te yn y Grug, yn seiliedig ar lyfr Kate Roberts, gwaith ardderchog Al Lewis. Torf o bobl ifanc dalentog yn hapus a hyderus ar y llwyfan. Roedd dathliad 30 mlynedd o Ysgol Glanaethwy a chawsom hanes Cefin a Rhian Roberts, nhw a wnaeth sefydlu'r ysgol. Dyma'r ysgol ddrاما sydd wedi magu gymaint o'n talentau enwog dros y 30 mlynedd diwethaf. Gwelsom ni llawer ohonyn nhw ar ambell i Noson Lawen yn ddiweddar.

Pan dach chi'n ystyried mai 562,000 o siaradwyr Cymraeg roedd yng Nghymru yn ôl y cyfrifiad diwethaf yn 2011 mae'n syndod ac yn rheswm balchder i ni fod gymaint o bobl dalentog yn ein byd Cymraeg. Ac yn enwedig ymysg y to ifanc. Maen nhw'n dweud bod balchder yn bechod ond na, nid yw'n bechod os balchder o'n pobl dalentog ni ydy o. Felly godwch wydryn iddyn nhw, yr hyn a'r ifanc a dymunwch ddyfodol disglair iddyn nhw! A diolch i S4c!

Mastermind Cymru



Roedd un o'r ddisgyblion ysgol Gymraeg y Cwm, Tirion Clarke yn cymryd rhan mewn Mastermind i Blant.

Bu Bethan Mair o Bontarddulais yn cymryd rhan yn y Mastermind i oedolion.

O'R ARIANNIN I WALIA

gan Anwen Harris

Mae eleni wedi bod yn flwyddyn wahanol iawn i'r disgwyl. Mae hi bendant wedi bod yn flwyddyn heriol ond hefyd yn llawn profiadau.

Es i allan i'r Ariannin mis Chwefror i fod yn Swyddog Datblygu'r Iaith Gymraeg ardal y Dyffryn, Patagonia. Yn anffodus ar ôl gweithio a dysgu am bythefnos digwyddodd



clo yn sydyn. Caeodd yr ysgolion ac roedd y dysgu a gwaith menter wedi symud i fod dros y we. Cwrddais i lawer o blant ac oedolion am y tro cyntaf ar-lein, roedd hwn yn heriol.

Yn ffodus iawn cefais i gyfle i grwydro'r

Dyffryn a Threlew, ymweld â phengwinaid ym Mhunta Tombo ac ymweld â Phorth Madryn yn yr haul crasboeth cyn y cyfnod clo. Mae Patagonia yn brydferth.

Ar ôl deg wythnos yn y cyfnod clo hedfanais i nôl i Gymru gyda threfniant y Llysgenhadaeth. Nid oedd hediadau mewnol i gael felly roedd rhaid i fi fynd ar **fws 13 awr o'r Gaiman i Buenos Aires** cyn hediad 14 awr i Lundain. Roedd y daith yn hir ac yn anarferol iawn, roedd rhaid gwisgo mwgwd yr holl ffordd. Lwcus, ces i gwmni yr athrawon Cymraeg, oedd yn yr un sefyllfa â fi.

Dw i wedi bod yn dysgu plant, pobl ifanc ac oedolion yr Ariannin o Gymru am naw mis. Mae technoleg yn anhygoel!

Er gwaetha'r sefyllfa rydym wedi trefnu a chynnal digwyddiadau hanesyddol eleni. Mae cysylltiadau'r Wladfa â Chymru wedi cryfhau.

Rydym wedi cynnal hyfforddiant Cymraeg am y tro cyntaf i athrawon y Wladfa. Mynychodd athrawon Ysgol y Gaiman, Ysgol yr Hendre ac Ysgol y Cwm hyfforddiant Tric a Chlic ar-lein gydag Eirian, cydlynedd Tric a Chlic, Canolfan Peniarth. Roedd hwn yn llwyddiannus dros ben ac

wedi rhoi hyder i athrawon Y Wladfa ddefnyddio'r cynllun i ddatblygu sgiliau ffoneg y disgyblion. Hoffwn ddiolch i Eirian am fentro **gyda'r hyfforddiant ar-lein.**

Yn ogystal â hyn rydym wedi cynnal nifer o gwisiau hwylus ar-lein. Hyfryd yw gweld pobl yr Ariannin a phobl o Gymru yn **mynychu'r digwyddiadau yma. Dathlom ddiwedd y flwyddyn gyda chwis Nadolig, mynychodd 22 o bobl y cwis yma, anhygoel!**

Dw i'n teimlo mor ddiolchgar fy mod wedi cael y cyfle i gwrdd â phobl anhygoel Y Wladfa. Uchafbwynt y flwyddyn oedd clywed Anthem Genedlaethol Cymru yn cael ei ganu yn yr Ysgol Gynradd wrth iddynt ostwng y faner ar ddiwedd bob dydd. Roedd hwn yn hala ias lawr fy nghefn. I weld plant o bob oedran yn canu'r anthem, milltiroedd i ffwrdd o Gymru, roedd hwn yn anhygoel! Mae'r Gymraeg bendant yn fyw ochr arall y byd!

Pan fydd sefyllfa Covid-19 yn gwella byddaf yn dychwelyd i'r Ariannin i weld pawb, yn enwedig y disgyblion sydd wedi gweithio mor galed gyda fi ar-lein eleni. Gobeithio byddaf yn cyrraedd yr Andes i gwrdd â phawb wyneb wrth wyneb ac nid ar y cyfrifiadur. Os ydych chi **erioed wedi meddwl am fynd, dw i'n awgrymu yn gryf i chi fynd. Byddwch yn mwynhau mas draw! Llun uchod: Crwydror Gaiman**



ABERTAWE'N TRAFOD ETHOLIAD AMERICA

Yr Athro Emeritws Jon Roper o Brifysgol Abertawe fu siaradwr gwadd yn y ddarlith gyntaf a drefnwyd gan Sefydliad Brenhinol De Cymru yn 2021.

Bu'r pwnc yn hynod amserol - sef swydd Arlywydd Unol Daleithiau America, a'r disgwyliadau gwahanol yn ei chylch ar draws y byd.

Mae'r Athro Roper wedi dysgu mewn nifer o brifysgolion ledled yr Unol Daleithiau - ym Mhrifysgol Georgetown yn Washington Tennessee, Wisconsin ac Ohio - ac efe yw awdur llyfr awdurdodol ar hanes Arlywyddion y wlad.

Rhoddyd y sgwrs drwy gyfrwng Zŵm, a denodd dyrfa sylweddol i glywed yr Athro Roper drafod y datblygiadau ar draws yr Iwerydd a thynnu sylw i'r newidiadau mewn gwleidyddiaeth, y cyfryngau a'r boblogaeth a effeithiodd ar yr etholiad diwethaf - a'r fferysg pan dorrodd cefnogwyr y cyn-Arlywydd Donald Trump i mewn i'r Capitol yn Washington.

Mae Sefydliad Brenhinol De Cymru yn un o sefydliadau dysgedig hynaf yng Nghymru. Cafodd ei sefydlu yn 1835, ac mae'n gweithredu fel Cyfeillion Amgueddfa Abertawe - ble ceir ei rhaglen sylweddol o ddarlithiau ei rhoi fel arfer.

Llun: Yr Athro Jon Roper yn rhoi'i ddarlith **Zŵm (7:30pm Nos Iau, 14 Ionawr 2021)**

Cwis o'r gorffennol

Yn y llun isod: Daeth Andrew Knight yn ficer Sgeti, a Clive Manison yn un o hoelion wyth Ty Tawe.

Clwb Cefnogwyr Tŷ Tawe

Rhif Elusen: 514082



Hoffwn ymaelodi â Chlwb Cefnogwyr Cymdeithas Tŷ Tawe,
gan gyfrannu at ddyfodol y Ganolfan a'i gwaith dros y Gymraeg.

Teitl: Enw/au cyntaf:

Cyfenw: Cyfeiriad:

..... Cod Post:

Cyfeiriad e-bost: Rhif ffôn:

Hoffwn dderbyn newyddion am weithgareddau Cymdeithas Tŷ Tawe Hoffwn dderbyn e-gylchlythyr wythnosol Menter Iaith Abertawe

Gellir dad-danysgrifo o'r uchod ar unrhyw adeg trwy gysylltu â'r Gymdeithas
neu'r Fenter.

Mathau o Gefnogaeth

(Yn ôl eich dewis – rydym yn
ddiolchgar am bob cyfraniad)

- | | |
|---|------------------------------|
| 1 | £2 y mis / £24 y fl. |
| 2 | £5 y mis / £60 y fl. |
| 3 | £10 y mis / £120 y fl. |
| 4 | £20 y mis / £240 y fl. |
| 5 | Teulu:
Un o'r rhain + 50% |

**I DDOD YN GEFNOGWR, TREFNWCH BOD TALIAD YN MYND TRWY EICH BANC.
DYLAI FOD MODD TREFNU ARCHEB BANC AR-LEIN – DIOLCH I CHI.**

Trefnwch archeb banc i:

Cymdeithas Tŷ Tawe

Rhif cyfrif: **11617168**

Cod didoli'r banc **40-43-31** (HSBC, 10 Stryd Portland, Abertawe SA1 3DF)

Wedi i chi wneud hyn, anfonwch y ffurflen hon at

Clwb Cefnogwyr Tŷ Tawe,

Rhian Jones / Catrin Rowlands,

Llecyn Llawen, 4 Stryd Lewis, St Thomas

Abertawe SA1 8BP.

Rwyf wedi trefnu rhoi £..... y mis / y flwyddyn i Gymdeithas Tŷ Tawe.

Trwy lenwi'r rhan hon, caiff Tŷ Tawe 25c ychwanegol am bob £1 a gyfrannwch.

Datganiad Cymorth Rhodd Enw'r Elusen: Cymdeithas Tŷ Tawe, Elusen Gofrestredig Rhif 514082

Ticiwch: Rwyf am i'm cyfraniad o £..... fod yn Gymorth Rhodd

Dymunaf drin fy nghyfraniad i Gymdeithas Tŷ Tawe ac unrhyw rodd ariannol a wnaif yn y dyfodol i Gymdeithas Tŷ Tawe fel taliad Cymorth Rhodd. Rwy'n talu treth incwm y D.U. ac rwy'n deall mai fy nghyfrifoldeb i yw talu unrhyw wahaniaeth os byddaf yn talu llai o Dreth Incwm a/neu dreth enillion cyfalaf y DU yn y flwyddyn dreth gyfredol na'r swm o Rodd Cymorth sy'n cael ei hawlio ar fy holl gyfraniadau. Deallaf y bydd yr elusen yn adhawlio 25c am bob £1 rwy'n ei rhoi o hyn ymlaen. Rhoddaf wybod i Gymdeithas Tŷ Tawe os bydd fy statws treth a/neu enillion cyfalaf neu fy nghyfeiriad yn newid yn y dyfodol neu os wyf am ganslo'r cyfarwyddyd hwn.

TEITL: ENW/AU CYNTAF: CYFENW:

CYFEIRIAD:

..... COD POST:

Swm a gyfrennir yn y flwyddyn dreth 2020-2021: £

Llofnod: Dyddiad: